Disgrifiad Swydd - Swyddog Gweinyddol

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bychan sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith ledled Cymru.

Mae'r swydd yn galw am unigolyn trefnus ac effeithlon sydd yn gallu meistroli nifer o elfennau gweinyddol sydd ynghlwm â gwaith Mentrau Iaith Cymru.

Bydd lleoliad swyddfa'r ymgeisydd llwyddiannus ym mhrif swyddfa Mentrau Iaith Cymru yn Llanrwst.

Dyletswyddau

- Gweinyddu taliadau a chadw cyfrifon
- Trefnu a chofnodi cyfarfodydd
- Ateb ymholiadau ffôn/ e-bost
- Cydweithio â Swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Gweinyddu Cytundebau Partneriaeth prosiect Cymraeg Byd Busnes
- Gweinyddu swyddfa MIC
- Gweinyddu materion Adnoddau Dynol
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Profiad o ddelio â chyllid
- Yn drefnus ac effeithlon, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel.
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol a gweithio'n annibynnol ar brydiau
- Y gallu i gydweithio ag eraill
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafnidiaeth eich hunan.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig.

Sgiliau / profiad dymunol-

- Cymhwyster yn y maes Gweinyddol
- Profiad o weithio yn y maes gweinyddol
- Profiad o reoli cyllid/ cyllidebau
- Profiad o lunio ceisiadau ariannol
- Profiad neu wybodaeth am reolaethau adnoddau dynol
- Profiad o gydlynu cyfarfodydd
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector yng Nghymru
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru

Amodau

Bydd yr oriau gwaith yn 37 awr yr wythnos. Llun i Gwener 09:00 - 17:00. (Rydym yn barod i ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n awyddus i weithio llai o oriau). Weithiau bydd disgwyl gweithio y tu hwnt i oriau arferol gwaith, rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn drwy system Amser Dyledus (Time Off In Lieu- TOIL).

Cytundeb

Cynigir cytundeb hyd at Awst 2019 yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o barhad wedi hynny, bydd hyn yn ddibynnol ar gyfnod prawf llwyddiannus o 6 mis.

Cyflog, teithio a phensiwn

Telir Cyflog o £17,391 - £18,319 y flwyddyn
Telir Costau Teithio o 45c y filltir.
Telir cyfraniad pensiwn

Gwyliau

Bydd 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau statudol.

Diwedd- Gorffennaf 2018